



Gwaredu **BVD**

# Prosiect Gwaredu BVD – Telerau ac Amodau

Trwy arwyddo'r datganiad hwn, mae'r ffermwr/perchennog neu'r person sy'n gyfrifol am y fuches(a nodir isod fel "y ffermwr") yn cytuno â'r canlynol:

1. Rwyf i, y ffermwr, yn rhoi caniatâd i samplu nifer briodol o wartheg fel y penderfynir gan y Milfeddyg sy'n mynychu er mwyn cynnal profion gwrthgyrff BVD.
2. Bydd canlyniadau'r profion a wneir fel rhan o'r prosiect ar gael gan y labordy sy'n cynnal y profion i brosiect Gwaredu BVD.
3. Mae Gwaredu BVD yn brosiect cymorthdaledig
  - a. Mae'r prawf sgrinio stoc ifanc yn cael ei wneud am ddim a bydd ffermwr yn gymwys i gael 1 prawf bob blwyddyn am hyd at 3 blynedd os byddant yn ymuno yn ystod y flwyddyn gyntaf. Os byddant yn ymuno yn ystod ail neu drydedd flwyddyn y rhaglen bydd nifer y profion sydd ar gael yn lleihau ar sail pro rata
  - b. I fuchesi sy'n cael eu sgrinio ac yn derbyn canlyniad positif, bydd gweithgaredd canfod anifeiliaid wedi'u heintio'n barhaus (PI) yn gymorthdaledig. Gellir hawlio uchafswm o £100 am gyngor gan Filfeddyg y fferm ei hun ynghyd â £400 ychwanegol tuag at gynnal profion.
  - c. Bydd ceisiadau am ail weithgaredd i ganfod anifeiliaid PI os bydd y cyntaf yn aflwyddiannus yn cael eu cymeradwyo ar sail unigol gan Gyfarwyddwr Technegol Gwaredu BVD. Bydd y cymhorthdal hwn werth hyd at £500.
4. Ni fydd Gwaredu BVD yn atebol am unrhyw anafiadau i staff nag anifeiliaid o ganlyniad i drin neu weithgareddau tebyg a wneir wrth samplu gwartheg er mwyn casglu samplau gwaed.
5. Bydd canlyniadau'r samplau gwaed ar gael ar gronfa ddata er mwyn hwyluso'r broses o brynu anifeiliaid heb BVD, a bydd y gronfa ddata gael i bawb yn unol â'r amserlen ganlynol
  - a. Blwyddyn gyntaf y rhaglen – Dim data ar gael o gwbl
  - b. Ail flwyddyn y rhaglen – Ffermydd gyda chanlyniadau negyddol yn cael eu cyhoeddi
  - c. Trydedd flwyddyn y rhaglen ac ati - cyhoeddi'r holl ddata ar y gronfa ddata





Gwaredu **BVD**

6. O ganlyniad i'r wybodaeth a geir fel rhan o'r prosiect, disgwylir y bydd y ffermwyr yn gweithredu ar gyngor a roddir er mwyn gwella neu ddiogelu ei statws BVD gan gynnwys, heb gyfyngiadau, gosod stoc newydd mewn cwarantîn, gwaredu anifeiliaid PI, brechu, gwella ffensys.
7. Mae gwaredu anifeiliaid PI yn hanfodol i lwyddiant unrhyw raglen waredu ar fferm. Disgwylir y bydd ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn anfon anifeiliaid wedi'u heintio'n barhaus i'r lladd-dy cyn gynted â phosibl o'u gwirfodd. Bydd angen i geisiadau am gymorth ariannol i gefnogi ail weithgaredd i ganfod anifeiliaid PI fod wedi lladd yr holl anifeiliaid PI a ganfuwyd o fewn deufis o'u canfod.
8. Gall Gwaredu BVD gael mynediad at ddata BCMS ynglŷn â'r fferm er mwyn rheoli'r rhaglen yn y modd mwyaf effeithiol posibl.
9. Ceidw Gwaredu BVD yr hawl i newid y telerau a'r amodau hyn yn ôl y galw.

